Busnes Cymdeithasol Cymru

/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales/cy

# Canllaw ar ymddiriedolaethau buddion gweithwyr



Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Undeb Ewropeaidd
European Union
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Beth yw Ymddiriedolaethau Budd Gweithwyr (YBG)? | 3 |
| Pam fyddai angen YBG arnom? | 3 |
| YBG fel warws | 3 |
| Sut mae trefn lle mae YBG yn dal cyfranddaliadau o fudd i weithwyr? | 3 |
| YBG fel 'crëwr marchnad' | 4 |
| Sut allwn ni sefydlu YBG? | 4 |
| Rhagor o wybodaeth | 5 |



Cyhoeddwyd gan Fusnes Cymdeithasol Cymru, 9 Tachwedd 2015

Ariennir Busnes Cymdeithasol Cymru gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth Cymru. Fe'i darperir gan Ganolfan Cydweithredol Cymru fel rhan o wasanaeth Busnes Cymru.



Nid yw Busnes Cymdeithasol Cymru yn derbyn unrhyw atebolrwydd am gynnwys y canllaw hwn, nac am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail yr wybodaeth a roddir.



Mae copïau o'r canllaw hwn ar gael yn http://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales/cy

Hefyd ar gael yn Saesneg. Hefyd ar gael mewn fformat print bras.

# Beth yw Ymddiriedolaethau Budd Gweithwyr?

Defnyddir Ymddiriedolaethau Budd Gweithwyr (YBG) mewn nifer fawr o gwmnïau a berchnogir gan y gweithwyr.

Mae YBG yn fath arbennig o ymddiriedolaeth disgresiwn y gall cwmni roi cyfranddaliadau neu asedau eraill ynddi, dan berchnogaeth amlwg a neilltuol yr ymddiriedolwyr, er budd buddiolwyr. Mae'r "Ymddiriedolwr" yn dal cyfranddaliadau ar ran gweithwyr cwmni (a adwaenir fel y "Prif Gwmni"). "Buddiolwyr" yw'r enw ar y gweithwyr, a'r cyn-weithwyr, sy'n mynd i gael budd o'r YBG. Mae'r Ymddiriedolwyr ar y cyfan yn cael eu dewis gan y prif gwmni a'r gweithwyr ac yn cynnwys un ymddiriedolwr sy'n annibynnol ar y prif gwmni.

Mae budd y cyfranddaliadau a ddelir yn yr YBG yn perthyn i'r Buddiolwyr fel dosbarth ond nid os gan yr un ohonynt hawl fel unigolyn i dderbyn budd oni bai fod yr Ymddiriedolwr yn penderfynu y dylai ef neu hi gael budd. Nid yw bod yn fuddiolwr yn gwarantu difidend nac yn darparu ar gyfer sefyllfa lle gellir gwerthu 'perchnogaeth' wrth adael y busnes fel sy'n bosib gyda chyfranddaliadau.

Mae'n fath o gydberchnogaeth ar gyfranddaliadau ar ran gweithwyr yn hytrach na pherchnogaeth unigol ar gyfranddaliadau gan y gweithwyr unigol.

# Pam fyddai angen YBG arnom?

Defnyddir YBG at sawl diben, ond yn achos cwmni a berchnogir gan y gweithwyr rôl YBG fel arfer yw gweithredu fel warws a dal cyfranddaliadau ar ran gweithwyr ar gyfer y tymor hir, gweithredu fel 'crëwr marchnad' ar gyfer gweithwyr sy'n dymuno prynu neu werthu cyfranddaliadau, neu gyflawni'r ddwy rôl ar yr un pryd neu ar wahanol adegau.

# YBG fel warws

Mae'r YBG yn aml yn cael ei defnyddio fel "warws" ar gyfer caffael a dal cyfranddaliadau, yn aml o ganlyniad i olyniaeth busnes. Mae YBG yn aml yn cael ei chreu er mwyn gallu ei defnyddio fel cyfrwng cyfreithiol i brynu cyfranddaliadau gan y perchennog ymadawol gwreiddiol pan fo'n dymuno gadael y busnes.

Mae'r YBG fel arfer yn cael ei chyllido'n uniongyrchol naill ai o ganlyniad i fenthyca arian gan drydydd parti (er y byddai gwarant yn cael ei rhoi fel arfer gan y prif gwmni), neu o ganlyniad i dderbyn arian 'yn rhodd' gan y prif gwmni a'i creodd.

Mae'r YBG yn endid cyfreithiol ar wahân a reolir gan ymddiriedolwyr ac nid yw dan reolaeth y prif gwmni er y gallai'r prif gwmni fod wedi cyflwyno arian 'yn rhodd' neu warantu arian er mwyn i'r YBG brynu cyfranddaliadau.

# Sut mae trefn lle mae YBG yn dal cyfranddaliadau o fudd i weithwyr?

Mae'r YBG yn dal y cyfranddaliadau er budd gweithwyr. Bydd gan yr Ymddiriedolwr ddisgresiynau a phwerau a roddir iddo dan ddogfen a elwir yn "Ddogfen Ymddiriedolaeth". Bydd yn ofynnol i'r Ymddiriedolwr weithredu yn unol ag amodau'r Ddogfen Ymddiriedolaeth ac fe allai hyn gynnwys peth arweiniad ynghylch sut y mae disgwyl i ymddiriedolwyr weithredu er budd buddiolwyr.

Fe allai dal cyfranddaliadau a gweithredu er budd gweithwyr olygu bod yr ymddiriedolwyr yn dal y cyfranddaliadau am amser hir ac nad ydynt yn eu dosbarthu. Yn ystod y cyfnod hwn mae'r ymddiriedolwyr

yn dwyn Bwrdd y prif gwmni i gyfrif ac yn sicrhau eu bod yn trin gweithwyr fel perchnogion ac yn rhedeg y cwmni er eu budd hwy.

Fe all yr ymddiriedolwyr benderfynu dal cyfranddaliadau am gyfnod byr yn unig cyn eu trosglwyddo i rai gweithwyr, neu roi opsiynau i rai gweithwyr.

Bydd y cyfranddaliadau sy'n cael eu dal gan YBG yn denu difidend ac fe allai'r ymddiriedolwyr benderfynu rhoi budd i'r gweithwyr trwy ddosbarthu'r difidend hwn iddynt (er y byddai dulliau sy'n llawer mwy effeithlon o safbwynt treth o wobrwyo buddiolwyr).

Un pwynt allweddol i'w gofio yw mai ymddiriedolaeth disgresiwn yw YBG. Yn y bôn, cyn belled â bod yr ymddiriedolwyr yn credu eu bod yn gweithredu er budd buddiolwyr gallant arfer eu disgresiwn yn hytrach na chael eu cyfarwyddo gan fuddiolwyr i gyflawni gweithredoedd penodol (megis gwerthu'r prif gwmni a rhannu'r elw ymhlith y gweithwyr).

Mae Partneriaeth John Lewis yn enghraifft o Gwmni a berchnogir gan y gweithwyr ac a berchnogir yn llwyr gan YBG.

# YBG fel 'crëwr marchnad'

Gall yr YBG weithredu fel 'crëwr marchnad' trwy brynu cyfranddaliadau gan weithwyr pan fônt yn gadael y busnes a gwerthu cyfranddaliadau i weithwyr newydd sy'n ymuno. Er mwyn prynu cyfranddaliadau bydd yr YBG ar y cyfan yn derbyn arian yn rhodd gan y prif gwmni.

Mae hyn yn rhoi mantais o'i gymharu â sefyllfa lle mae prif gwmni yn prynu ei gyfranddaliadau ei hun gan weithwyr sy'n gadael ac yn cael ei orfodi i ganslo'r cyfranddaliadau, ac yna'n gorfod dyrannu cyfranddaliadau newydd er mwyn trefnu bod cyfranddaliadau ar gael i weithwyr newydd brynu cyfranddaliadau.

# Sut allwn ni sefydlu YBG?

Mae sefydlu YBG yn weddol syml, ond dylech geisio cyngor proffesiynol ynghylch gwneud hynny er mwyn sicrhau y bydd yr YBG yn cyflawni'r canlyniad yr ydych yn ei ddymuno.

Y broses arferol ar gyfer sefydlu YBG yw:

1. Mae dogfen ymddiriedolaeth yn cael ei llunio. Mae hon yn nodi sut y caiff ymddiriedolwyr eu penodi, pwy yw'r buddiolwyr, pa eiddo (cyfranddaliadau, arian, asedau ac ati) sydd wedi cael ei roi mewn ymddiriedolaeth, a beth all yr ymddiriedolwyr ei wneud â'r eiddo hwn y maent yn berchen arno ar ran buddiolwyr.

2. Nodi pwy yw'r ymddiriedolwyr. Fel arfer bydd ymddiriedolwr wedi'i ethol gan weithwyr, ymddiriedolwr wedi'i benodi gan y bwrdd ac ymddiriedolwr annibynnol (h.y. rhywun nad yw'n gweithio neu nad yw wedi gweithio i'r prif gwmni).

3. Mae'r ymddiriedolwyr a'r prif gwmni'n llofnodi'r ddogfen ymddiriedolaeth.

4. Mae'r prif gwmni wedyn yn rhoi 'rhodd' fach ariannol i'r ymddiriedolaeth – fe allai hon fod mor fach â £100.

# Rhagor o wybodaeth

Lluniwyd y canllaw hwn ar gyfer prosiect Busnes Cymdeithasol Cymru. Ariennir Busnes Cymdeithasol Cymru gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth Cymru. Fe'i darperir gan Ganolfan Cydweithredol Cymru fel rhan o wasanaeth Busnes Cymru.

Nod Busnes Cymdeithasol Cymru yw cefnogi busnesau cymdeithasol sy'n awyddus i dyfu. Am ragor o gymorth, cysylltwch â:

Busnes Cymru: http://busnescymru.llyw.cymru   Ffôn: 03000 6 03000

Neu ewch i'r pecyn cymorth ar-lein http://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales/cy

Canolfan Cydweithredol Cymru
Y Borth
13 Ffordd Beddau
Caerffili
CF83 2AX
Ffon: 0300 111 5050
Ebost: info@wales.coop
Y We: www.wales.coop

Mae Canolfan Datblygu a Hyfforddi Cydweithredol Cymru Cyfyngedig (yn masnachu fel Canolfan Cydweithredol Cymru) yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd oedi os byddwch yn gohebu â ni yn Gymraeg.